

PARRY, BLANCHE (ap Harry, Aparry, Apparey, Apharrie a ffurfiau eraill) (1507/8-1590), Prif Foneddigs Siambr Gyfrin y Frenhines Elisabeth a Cheidwad Tlysau'r Frenhines

PDF Generated on: Wed, 20 Nov 2024 18:38:06 +0000

<https://bywgraffiadur.cymru/article/c7-PARR-BLA-1508>

Enw: Blanche Parry

Dyddiad geni: 1507/8

Dyddiad marw: 1590

Rhiant: Alice Parry (née Milbourne)

Rhiant: Henry Parry

Rhyw: Benyw

Galwedigaeth: Prif Foneddigs Siambr Gyfrin y Frenhines Elisabeth a Cheidwad Tlysau'r Frenhines

Maes gweithgaredd: Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awduron: Robert Thomas Jenkins, Ruth Elizabeth Richardson



Ganwyd hi rhwng Mawrth 1507 a Mawrth 1508 yn Newcourt, Bacton yn Nyffryn Aur afon Dore, Ewas (Ewyas), yn swydd Henffordd, yn ferch i Henry Myles a'i wraig o Saesnes Alice (Milborne). Aelwyd Gymraeg ei hiaith ydoedd.

Ceir naw cerdd farddol sy'n cyfeirio at deulu Blanche, pump gan **Uto'r Glyn** ac un yr un gan **Wilym Tew**, **Howel Dafri**, **Huw Cae Llwyd** a **Lewys Morgannwg**. Cynhwysir hwy mewn fersiynau Cymraeg Diweddar a'u trosi i'r Saesneg ar www.blancheparry.com. Y mae un o gerddi **Guto'r Glyn**, 'Harri Ddu o Ewas', yn rhoi ach y teulu mawr a changhennog hwn (200-4 a 216-20 yn arg. **Ifor Williams** a J. Llywelyn Williams o waith **Guto'r Glyn**). Cyfeiria at Harri Ddu ar Gruffudd, hendaid Blanche, steward Brynbuga, Caerllion ac Ewyas Lacey dan **Syr William Herbert, Iarll Penfro (y greadigaeth gyntaf)** a chefnogwyd Dug Efrog ac Edward IV.

Nain a thaid Blanche ar ochr ei thad oedd Myles ap Harry a briododd Joan, un o ferched **Syr Harri Stradling** o Sain Dunawd ym Morgannwg. Yr oedd mam Joan yn chwaer i **Syr William Herbert, Iarll Penfro**, a oedd yn ddisgynydd i **Ddafydd Gam**. (Yn 1811 symudwyd ffenestri lliw coffa i Myles ap Harry, Joan a'u 19 o blant o eglwys Bacton yn Swydd Henffordd i eglwys Atcham ger Amwythig a gosod ym yn ogystal ffenestr goffa i Blanche Parry.)

Bu tad Blanche, Henry Myles, yn siryf Swydd Henffordd a steward Abaty Dore deirgwaith, yr olaf hon yn swydd etifeddol yn y teulu, ac yr oedd cysylltiadau rhwng yr abaty a theulu **Cecil** / **Sisilt** (Seisylliaid), Allt-yr-ynys, heb fod nepell o Bacton, lle y trigai William Cecil, cefnder yr enwog **Syr Willam Cecil, Arglwydd Burghley**; priododd Olif/Olive Parry o Poston, (gweler yr erthygl **Parry, James Rhys**), disgynydd i John, brawd Miles ap Harri, i'r teulu hwn. Arddelid perthynas y Parïod a'r **Ceciliaid** gan yr **Arglwydd Burleigh** - mae'n galw Blanche 'my cousin' a hithau'n cyfeirio ato ef fel 'kinsman' a 'my friend'. Gweithient yn agos â'i gilydd a darparai ef gymorth cyfreithiol. Ef a ddrafftiodd ei dwy Ewyllys, gan ysgrifennu'r nodiadau ar gyfer ei Hewyllys ddatganiadol Gyntaf yn Nhachwedd 1578 yn ei law ei hun, ac ef oedd ei phrif ysgutor yn ei Hewyllys Derfynol yn 1589.

Ymhlith y teuluoedd eraill a ymbriododd â'r Parïod yr oedd pedair cangen o'r Fychaniaid, Morganiaid Gwent ac Ewas ac Ystradyw, Powelliad Penbeddel, de Barri, a theuluoedd Whitney a Knolly. Yr oedd eu cysylltiadau'n lletach fyth a chynhwysent bron y cwbl o'r uchelwriaeth leol a theulu Devereux (a roddai gysylltiadau â Iarll Leicester a Syr James Croft, Goruchwyliwr Gweision Tŷ'r Frenhines). Dichon fod Thomas Parry, 'coffwr' y frenhines a fu farw yn 1560, mab **Henry Vaughan Tretŵr**, yn gyswllt pell. Hawliai **John Dee** berthynas ond nid ymatebai Blanche ac mewn gwirionedd ni chyfeiria **Dee** ati ond deirgwaith - gweithredodd (trwy ddirprwy) fel mam-fedydd i'w fab, mab nas enwir gan Blanche yn y naill na'r llall o'u hewyllysau. Y mae'n eglur mai ceisio ennill ei dylanwad yn y Llys yr oedd **Dee**.

Olrheiniwyd troeon gyrrfa Blanche Parry yn fanwl am y tro cyntaf gan C.A. Bradford sy'n chwalu llawer chwedl amdani. Y mae'r ymchwil newydd sydd yn y bywgraffiad *Mistress Blanche, Queen Elizabeth I's Confidante* yn rhoi llawer o fanylion amdani ac y mae gwybodaeth ychwanegol ar y wefan gysylltiol www.blancheparry.com.

Y mae'n bur sicr mai modryb Blanche Parry, y **Fonesig Herbert o Troy** a'i dug gyntaf i'r llys brenhinol. 'Lady Mistress' i Edward VI ac Elisabeth yn blant oedd y **Fonesig Troy**. Ysgrifennodd Blanche Parry ei hun yn ei beddargraff yn Bacton iddi fod yn weinyddes y frenhines 'whose cradle I saw rocked' o onedigaeth Elisabeth yn 1533 pan oedd Blanche yn 25 neu 26 blwydd oed. Prin iddi adael Elisabeth ar ôl hynny hyd ei marwolaeth ei hun 56 o flynyddoedd yn ddiweddarach.

Yn ôl Syr Robert Tyrwhitt (Cal. State Papers, Edward VI, 31 Ionawr 1549), hyfforddodd y **Fonesig Troy** Blanche i fod yn olynnydd iddi ond yn lle hynny Kate Ashley a ddyrchafwyd o fod yn ddysgodes i fod yn 'Lady Mistress'. Er hynny, awgryma'r dystiolaeth i Blanche weini ar Elisabeth pan garcharwyd hi yn Nhŵr Llundain ac ar ôl hynny pan oedd yn gyfyngedig i'w thŷ. Pan esgynnodd Elisabeth i'r orsedd yn 1558, Blanche, ar y dechrau, oedd yn yr ail safle yn nhrefn gweision Tŷ'r frenhines newydd ond daeth yn Brif Foneddigs pan fu farw Kate Ashley yn 1565. A hithau â gofal y Siambr Gyfrin, gallai Blanche reoli pwy a gâi fynediad at y frenhines. Hi a oedd yn gyfrifol am dlysau'r frenhines (casgliad a gynyddai mewn maint, ardderchogwydd a gwerth) ers cyn esgyniad Elisabeth, am Sêl Fawr Lloegr am ddwy flynedd, am bapurau personol y frenhines, ei dillad, gwisgoedd ffwr a llyfrau. Derbyniai symiau sylweddol o arian ar ran y frenhines ac yr oedd yn gyfrwng i gyflwyno gwybodaeth i'r frenhines (gan gynnwys oddi wrth John Vaughan, nai Blanche) ac i gyflwyno mesurau seneddol. At hynny, goruchwyliai lleiniau'r frenhines a 'phethau eraill o eiddo ei mawrhydi', yn eu plith 'our musk cat', ffured, mae'n ymddangos.

Trwy'r cyfan, yr oedd Blanche yng nghyfrinach y frenhines gan ateb llythyrau ar ei rhan. Deuai'r sawl a oedd am iddi gyflwyno eu hachos i'r frenhines ati hi ac yn ôl pob tystiolaeth ymnaid dderbyn cyflwyniad eglur a chywir o'r ffeithiau. Blanche fyddai ymhlith y rhai cyntaf i dderbyn ystafelloedd pan fyddai'r frenhines ar gylchdaith fel y gallai fod o fewn galw. Triniau'r Frenhines Elisabeth hi fel barwnes. Er ei bod yn 'ddiofal o'm cyfoeth' gan ddiybennu ar y frenhines i ofalu amdani, rhoddwyd iddi ddwy wardiaeth ac eiddo yn Swydd Henffordd, Cymru (comisynnodd y map cyntaf o Lyn Safaddon yn 1584) a swydd Efrog. Gwerth ei hystâd pan fu farw oedd tua £½ miliwn i £1miliwn (yn ôl gwerthoedd heddiw) - swm sylweddol i wraig ddibriod ond fawr ddim o'i gymharu ag ystâd, er enghraifft, Iarll Leicester. Digwydd ei henw'n fynych yn y cofnodion swyddogol a chyfeirir ati mewn llenyddiaeth gyfoes. Yn 1575 ysgrifennodd George Gascoigne amdani:

For long and faithful service which hath abidden tuche.
Good Parry is a paragon, show me another such.

Y mae'n debyg fod paentiad o Siambr Bresenoldeb y frenhines (yn y Staatliche Museum-Graphische Sammlung Kassel 10430, yr Almaen) yn dangos Blanche yng nghanol y llys elisabethaidd yn gydymdeithes â'r frenhines ac yng nghwmni **Burghley**, Leicester, Clinton, Hatton a Walsingham. Darlunio'r rhai a ystyrir yn fwyaf dylanwadol yn y Llys a wna'r llun. (Anghyflawn ac anghywir yw'r enwau a ychwanegwyd yn ddiweddarach gan rywun nad oedd yn adnabod y rhai a ddarlunnid). Er bod Blanche yn ddall tua diwedd ei hoed (Llundain, Palas Lambeth, Papurau Talbot. MS 3198, ff. 552), nid oedd hyn yn gwarafun iddi ymdrin â busnes (fel y dengys ei llythyr ar ran James Parry) ac nid oedd pall ar ei chyneddffau hyd y diwedd.

Bu farw Blanche yn ddbriod ddydd lau, 12 Chwefror 1589/90, yn 82 mlwydd oed, yn fawr ei pharch gan bawb, cryn orchest yn y Llys elisabethaidd. Cyn mis Tachwedd 1578 yr oedd wedi comisyynu ei chofeb gyda chorffddelwau yn eglwys Bacton: ar yr arysgrif a gyfansoddodd ceir 'with a maiden queen a maid did end my life', tystolaeth ddiymwad mai morynion oedd y frenhines a hithau. Y mae'r gofeb yn bwysig yn genedlaethol fel y disgrifiad cyntaf o'r Frenhines Elisabeth yn Gloriana. Er hynny, y mae bron yn sicr mai yn Sansteffan y bu farw Blanche ac mai yn eglwys y Santes Margaret ger abaty Westminster y'i claddwyd lle y gellir gweld arysgrif ei bedd. Gadawodd Blanche gymynroddion ac elusennau helaeth (argraffwyd ei Hewyllys Derfynol yn breifaf gan Syr Thomas Phillipps yn 1845); parheir i dalu £28 yn flynyddol i blwyfolion Bacton a Newton. Yn ei golygiadau crefyddol adleisiai Blanche hoffter y frenhines o seremoni, er bod arwyddion o weddillion dylanwad Lolardaidd yn ei theulu (yr oedd cysylltiadau â Syr John Oldcastle).

Daw Blanche Parry i mewn, ar ddamwain megis, i hanes ysgrifennu hanes Cymru mewn un man. Yr oedd **Syr Edward Stradling**, ar awgrym yr **Arglwydd Burleigh**, wedi ysgrifennu traethawd ar gonwest Normanaidd Morgannwg a'i anfon ato. Rhoes **Burleigh** hwn i Blanche - i'r frenhines ei weld. Pan oedd **David Powell** yn Llundain yn trefnu ond odid i argraffu ei *Historie*, rhoes Blanche waith **Stradling** iddo ef - disgrifia **Powell** 'the right worshipfull Mistres Blanche Parry' fel 'a singular well willer and furtherer of the weale publike' yng Nghymru. Argraffodd yntau'r traethawd yn ei grynswth yn ei *Historie of Cambria* (1584) - gweler **G.J. Williams, Traddodiad llenyddol Morgannwg** (1948), 197-9. Y mae hyn yn ychwanegu at y dystiolaeth amgylchiadol y gallai fod Blanche wedi cynorthwyo cyllido argraffu *Beibl Cymraeg* 1588.

Yr oedd Blanche Parry yng nghanol y Llys elisabethaidd, y person a fu yn y cyswllt agosaf â'r frenhines am y cyfnod hwyaf. Yr oedd ei safle'n ddiysgog ac yn cael ei

gydnabod gan bawb - mae'n amlwg fod hyd yn oed faterion cyfrinachol yn cael eu trafod yn ei gŵydd. Yr oedd ei chyfeillgarwch â'i chefnider yr **Arglwydd Burleigh** yn elfen bwysig yn ei berthynas yntau â'r frenhines. Yr oedd Blanche yn drwyadl gywir, yn gwbl ddibynadwy, yn cadw cyfrinach ac yn hollol ymrwymedig i Elisabeth. Mewn llys a ddisgrifiwyd gan Syr Anthony Denny yn 'lle mor lliithrig' (*Letters of Roger Ascham*, gol. Alvin Vos, 1989) cadwodd Blanche ei pharch i'r fath raddau nes i Thomas Markham ddweud mai dall ydoedd yma ar y ddaear ond ei fod yn hyderu y câi hi weld pob gorfoledd yn y nefoedd. Gellir gweld ei chofeb a gorchudd allor a wnaed o wisg llys elisabethaidd yn eglwys Bacton a'i harysgrif bedd yn eglwys y Santes Margaret, Sansteffan. Y mae o leiaf un o'r lluniau yr honnir eu bod ohoni yn ddilys er mai fel ffotograff y mae wedi goroesi.

Awduron

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ruth Elizabeth Richardson

Ffynonellau

C. A. Bradford, *Blanche Parry, Queen Elizabeth's Gentlewoman* (Llundain 1935)

Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries (1898)

Ruth E. Richardson, *Mistress Blanche, Queen Elizabeth I's Confidante* (Eardisley 2018)

Cyfeiriadau eraill yn y testun uchod

rhagor o wybodaeth ar www.blancheparry.com

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Blanche Parry

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 68734245

Wikidata: Q3403111

Dyddiad cyhoeddi: 2010-02-09

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Erthygl a archifwyd

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., & Richardson, R. E., (2010). PARRY, BLANCHE (ap Harry, Aparry, Apparey, Apharrie a ffurfiau eraill) (1507/8-1590), Prif Foneddige Siambur Gyfrin y Frenhines Elisabeth a Cheidwad Tlysau'r Frenhines. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c7-PARR-BLA-1508>

Bywgraffiadur

Prefatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



